**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT**

**(Siambr y Cyngor – Canolfan Ddinesig Port Talbot)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **16 Ionawr 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Mizen** |
| **Cynghorwyr**: | M.Crowley, S.apDafydd, S.Harris, J.Jones, S.Miller, J.D.Morgan, R.Phillips, M.Protheroe, A.J.Richards, D.Whitelock a/ac J.Hale |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Millis a/ac A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.A.Rees |

1. **YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB ADDYSG, HAMDDEN A DYSGU GYDOL OES AC ARBEDION DRAFFT 2020/21**

Cafwyd trosolwg o'r Gyllideb Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ac Arbedion Drafft 2020/2021, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Esboniwyd bod y gyllideb gerbron y Cynghorwyr heddiw yn gyllideb gadarnhaol o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol, ond bod dal angen i'r Cyngor wneud £2.148 miliwn o arbedion er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/2021.

Cododd y Cynghorwyr y pwyntiau canlynol:

- Cyllideb AHDGO Llinell 1003 – Gwasanaethau Glanhau (Ysgolion)
  Roedd y Cynghorwyr yn pryderu am yr effaith ar gyllidebau ysgolion petai'r gost hon yn cael ei throsglwyddo i ysgolion a'r effaith y gallai hyn ei chael ar safon lendid ragorol bresennol ysgolion, os byddai angen i ysgolion arbed arian i dalu am y pwysau cyllidebol ychwanegol yma. Esboniodd swyddogion fod dal angen i arbedion gael eu gwneud ac y byddai'n golygu

pwysau ychwanegol ar gyllidebau ysgol ond bod ysgolion yn gallu amsugno hyn. Roedd llawer iawn o ganmoliaeth wedi bod am y gwasanaeth glanhau presennol am safon glendid ac roedd ysgolion yn deall yr angen i'r safon yma barhau.

Gofynnodd y Cynghorwyr i swyddogion ystyried trosglwyddo costau glanhau yn raddol i ysgolion dros gyfnod o 3 blynedd.

- Cyllideb AHDGO Llinell 1004 – Trafnidiaeth Ysgolion – Tu Allan i'r Sir
  Gofynnodd y Cynghorwyr sut gallai swyddogion ragfynegi y byddai gostyngiad yn yr angen am drafnidiaeth i ysgolion arbennig y tu allan i'r sir. Esboniodd swyddogion fod y rhagfynegiad wedi'i seilio ar niferoedd presennol y plant mewn lleoliadau y tu allan i'r sir a fyddai'n cyrraedd 19 oed ym mis Gorffennaf 2020 gan derfynu eu lleoliadau.

- Cyllideb AHDGO Llinell 1001 – Ymddiriedolaeth Hamdden
  Cwestiynodd y Cynghorwyr a oedd modd cyflawni'r arbediad hwn. Cadarnhaodd swyddogion fod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r darparwr i fwyafu eu hincwm a byddai hyn yn arwain at leihau'r cymhorthdal.

- Cyllideb AHDGO Llinell 707 – Canolfan Gelfyddydau Pontardawe
  Holodd y Cynghorwyr a oedd yr incwm a ragamcanwyd yn sgil y prosiect Sinema yn y Ganolfan yn ddichonol i arwain at leihau'r cymhorthdal. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r incwm uwch yn sgil sefydlu'r sinema a oedd i fod i agor ym mis Ionawr 2021 yn caniatáu i'r cymhorthdal leihau. At hynny, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cytuno buddsoddiad cyfalaf, a chwiliwyd am fuddsoddiad pellach gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyfeillion Canolfan Gelfyddydau Pontardawe i gefnogi'r datblygiad.

  Gofynnodd y Cynghorwyr i swyddogion ystyried lleihau'r cymhorthdal i'r Ganolfan Gelfyddydau dros gyfnod o 3 blynedd yn hytrach na 2 flynedd fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd y pwyllgor yn fodlon bod y gwaith a wnaed yn flaenorol i atgyfnerthu’r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi arwain at wasanaeth cynaliadwy wrth symud ymlaen.

Gofynnodd y Cynghorwyr i swyddogion sicrhau bod y pwyntiau a godwyd heddiw yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Gyllideb Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ac Arbedion Drafft 2020/2021.

**CADEIRYDD**